*Prifysgol y Plant Ar-lein*

# Creu cyfrifon ar gyfer staff ysgol

Dyma ganllaw ar sut i greu cyfrifon i'ch cydweithwyr ar *Brifysgol y Plant Ar-lein*. Os mai chi yw cydlynydd allweddol Prifysgol y Plant yn eich ysgol, bydd cyfrif wedi'i sefydlu ar eich cyfer gan eich Rheolwr Prifysgol y Plant.

Ar ôl i chi fewngofnodi i'ch dangosfwrdd byddwch yn gallu sefydlu cyfrifon ar gyfer cydweithwyr, fel y gallant ddefnyddio *Prifysgol y Plant Ar-lein.*

**Yr hyn fydd ei angen arnoch**

Er mwyn creu cyfrifon ar gyfer staff bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch.


- Enw llawn yr aelod o staff yr hoffech ei ychwanegu
- Cyfeiriad e-bost
- Rhif cyswllt

**Cam 1**

- Ewch i www.childrensuniversity.co.uk a chwiliwch am y gair *Login* ar y dde uchaf. Dewiswch fewngofnodi fel aelod o staff a rhowch eich manylion. Eich cyfeiriad e-bost fydd eich enw defnyddiwr a byddwch wedi gosod eich cyfrinair wrth ddilyn yr awgrymiadau yn yr e-bost croeso a anfonwyd gan eich rheolwr Prifysgol y Plant. Os nad oes gennych fanylion mewngofnodi gallwch gysylltu â'ch rheolwr a bydd yn anfon y wybodaeth sydd ei hangen arnoch i sefydlu eich cyfrif. Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair, cliciwch *Forgotten Password* a dilynwch y cyfarwyddiadau.


**Cam 2**

- Ar ôl i chi fewngofnodi byddwch yn gweld dashfwrdd *Prifysgol y Plant Ar-lein.* Dan *School Staff*, cliciwch *Add*



**Cam 3**

- Llenwch y ffurflen gyda'r wybodaeth berthnasol a phwyswch *Submit*
- Mae'r ffurflen yn gofyn i chi ddewis *User Type* yn y rhan fwyaf o achosion byddwch am sefydlu eich cydweithwyr fel *School Admin*. Bydd hyn yn rhoi hawliau gweinyddol llawn i'r defnyddiwr, gan gynnwys sefydlu/golygu cyfrifon plant a'r gallu i ychwanegu a golygu gweithgareddau
- Os byddwch yn dewis sefydlu cydweithiwr fel *School User*, bydd yn gallu mewngofnodi i'w ddangosfwrdd a gweld data ac adroddiadau plant, ond ni fydd yn gallu golygu unrhyw wybodaeth na chreu cyfrifon plant/ychwanegu gweithgareddau



## Ychwanegu School Staff

**Prifysgol y Plant**

Test

**Ysgol**

Test

**Enw defnyddiwr (cyfeiriad e-bost)**

**Enw Cyntaf**

**Cyfenw**

**Ffugenw (Saesneg)**

Rhowch yr enw y mae eich disgyblion yn eich galw

**Rhif ffôn**

**Math o Ddefnyddiwr**

Gweinyddiaeth Ysgol

Defnyddiwr Ysgol

Cyflwyno

**Cam 4**

- Ar ôl cyflwyno’r wybodaeth, byddwch yn gweld rhestr o gyfrifon pob aelod o staff
- Anfonir e-bost awtomatig at yr aelod o staff gyda mwy o wybodaeth sydd ei hangen i orffen sefydlu ei gyfrif
- Os na dderbynnir yr e-bost, bydd angen iddo actifadu’r cyfrif ei hun. Gall wneud hyn drwy glicio *Get activation link.*Bydd hyn yn cynnig dolen y gall ei gopïo a'i ludo i borwr, yna bydd angen iddo ddilyn yr awgrymiadau i sefydlu cyfrinair yr aelod o staff. Ar ôl i chi rannu hyn bydd angen iddo fewngofnodi a newid ei gyfrinair




**Problemau cyffredin**

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r holl wybodaeth sydd ei hangen.
- Weithiau bydd yr e-bost awtomataidd yn cael ei flocio gan wal dân, Os bydd hyn yn digwydd bydd angen defnyddio'r *Get activation link* i orffen sefydlu'r cyfrif

**Mae'n ddrwg gennyf, dydw i ddim yn deall o hyd!**

- Cysylltwch â'r Swyddog Cynhwysiant Digidol Cordelia Howard [Cordelia.howard@childrensuniversity.co.uk](mailto:Cordelia.howard@childrensuniversity.co.uk)